

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg**

**Children, Young People
and Education Committee**

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

22 Ebrill 2022

Y Bil Diogelwch Ar-lein

Annwyl gyfeillion,

Yn ystod trafodaeth am flaenraglen waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ein cyfarfod ar 31 Mawrth 2022, trafododd yr Aelodau amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag effaith y cyfryngau cymdeithasol ar fywydau plant a phobl ifanc.

Er ein bod yn cydnabod bod yna fanteision niferus, rydym yn parhau i bryderu am effaith y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys amhriodol ar-lein ar ddiogelwch a lles plant a phobl ifanc. Mae llawer o'r dystiolaeth sy'n dod i law ar hyn o bryd mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion ymhlith dysgwyr yn tynnu sylw at rôl y cyfryngau cymdeithasol drwy gynnig llwyfan ar gyfer aflonyddu rhywiol, a goblygiadau negyddol cynnwys ar-lein sy'n amhriodol o ran oedran i berthnasoedd ac ymddygiad rhywiol rhai pobl ifanc.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd. A allwch chi nodi:

- i. safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar brif gymalau'r Bil Diogelwch Ar-lein;
- ii. i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil (naill ai yn ystod y cyfnod datblygu neu ar ôl iddo gael ei gyflwyno) a natur yr ymgysylltiad hwnnw;

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

- iii. a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu pwyso ar Lywodraeth y DU am unrhyw welliannau penodol i'r Bil wrth iddo fynd drwy Senedd y DU;
- iv. p'un a ydych, yn sgil y Bil Diogelwch Ar-lein neu fel arall, yn bwriadu diweddarau **cynllun gweithredu cadernid digidol mewn addysg Llywodraeth Cymru i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein** a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Ebrill 2021 (er enghraifft drwy gofnodi cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a restrir yn y cynllun hwnnw), a phryd yr ydych yn bwriadu gwneud hynny;
- v. eich barn ar alwadau gan NSPCC Cymru am Gynllun Diogelwch Ar-lein newydd, sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar blant a phobl ifanc, sy'n defnyddio dull traws sector sy'n cwmpasu: iechyd, addysg, gorfodi'r gyfraith, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid, addysg, diwydiant a'r trydydd sector.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon ataf erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022 fan bellaf.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

